



**Cofnodion Iechyd Cyhoeddus Cymru heb eu Cadarnhau
Y Pwyllgor Gwybodaeth, Ymchwil a Hysbysrwydd
Cyfarfod Cyhoeddus, 23 Medi 2025, 14:00
Cynhaliwyd yn 3.5 CQ2 a thrwy Microsoft Teams**

Yn bresennol:		
Sian Griffiths	(SG)	Cadeirydd y Pwyllgor a Chyfarwyddwr Anweithredol (Iechyd y Cyhoedd)
Tamsin Ramasut	(TR)	Cyfarwyddwr Anweithredol (Cydraddoldeb ac Amrywiaeth)
Hefyd yn Bresennol:		
Rachel Andrew	(RA)	Ymgynghorydd Iechyd y Cyhoedd (ar gyfer eitem 3.1)
Claire Birchall	(CB)	Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio, Ansawdd a Llywodraethu Integredig
Iain Bell	(IB)	Cyfarwyddwr Cenedlaethol Gwybodaeth ac Ymchwil Iechyd y Cyhoedd
Liz Blayney	(LB)	Dirprwy Ysgrifennydd y Bwrdd a Dirprwy Bennaeth Uned Fusnes y Bwrdd
Tom Connor	(TC)	Pennaeth Rhaglen Genomeg Iechyd y Cyhoedd (ar gyfer eitem 3.7)
Mariana Dyakova	(MD)	Ymgynghorydd Iechyd y Cyhoedd (ar gyfer eitem 3.3)
Tom Fowler	(TF)	Dirprwy Gyfarwyddwr Cenedlaethol Gwasanaethau Diogelu Iechyd a Sgrinio
Danielle Gething	(DG)	Pennaeth Rheoli Risg (ar gyfer eitem 3.8.1 a 3.8.2)
Liz Green	(LG)	Ymgynghorydd Iechyd y Cyhoedd (Polisi ac Iechyd Rhyngwladol) (ar gyfer eitem 3.3)
Laura Holt	(LH)	Uwch Swyddog Cydlynw Iechyd Rhyngwladol (ar gyfer eitem 3.3)
Kirsty Little	(KL)	Ymgynghorydd Iechyd y Cyhoedd (Deallusrwydd Iechyd) (ar gyfer eitem 3.4)
Sarah MacAulay-Nolan	(SMN)	Arweinydd Monitro a Gwerthuso (ar gyfer eitem 3.1)
Jim McManus	(JM)	Cyfarwyddwr Cenedlaethol Iechyd a Llesiant
Emily van de Venter	(EV)	Ymgynghorydd Gwella Iechyd (ar gyfer eitem 3.5)
Zoe Wallace	(ZW)	Cyfarwyddwr Gofal Sylfaenol (ar gyfer eitem 3.1)
Ymddiheuriadau		
Sumina Azam	(SA)	Cyfarwyddwr Cenedlaethol Polisi ac Iechyd Rhyngwladol
Pippa Britton	(PB)	Cadeirydd
Tracey Cooper	(TC)	Prif Weithredwr



Clare Jenkins	(CJ)	Is-Gadeirydd Bwrdd Iechyd Cyhoeddus Cymru a Chyfarwyddwr Anweithredol
Meng Khaw	(MK)	Cyfarwyddwr Cenedlaethol Gwasanaethau Diogelu Iechyd a Sgrinio, Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol
Stuart Silcox	(SS)	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Llywodraethu Integredig
Paul Veysey	(PV)	Ysgrifennydd y Bwrdd a Phennaeth Uned Fusnes y Bwrdd
Ysgrifenyddiaeth		
Ffion Lloyd	(FL)	Swyddog Cymorth y Bwrdd
<i>Dechreuodd y cyfarfod am 14:00</i>		
KRIC 1/2025.06.17	Croeso, Cyflwyniadau ac Ymddiheuriadau	
Agorodd y Cadeirydd y cyfarfod a chroesawodd bawb oedd yn bresennol.		
Nododd y Pwyllgor fod y cyfarfod yn cael ei recordio i sicrhau cywirdeb y cofnodion. Cadarnhawyd y byddai'r recordiad yn cael ei ddileu unwaith y cytunwyd ar y cofnodion yn y cyfarfod canlynol ar 9 Rhagfyr 2025.		
KRIC 2/2025.06.17	Datganiadau o Fuddiant	
Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant ychwanegol i'r rhai a ddatganwyd eisoes ar y Gofrestr Datganiadau o Fuddiant.		
KRIC 3/2025.06.17	Eitemau ar gyfer Sicrwydd	
KRIC 3.1/2025.06.17	Archwiliad Dwfn o'r Is-adran Gofal Sylfaenol	
Rhoddodd RA/SMN archwiliad dwfn o weithgarwch ymchwil a gwerthuso'r Is-adran Gofal Sylfaenol.		
Amlinellodd SMN ymrwymiad yr isadran i ymgorffori ymchwil a gwerthuso, a nododd bod strategaeth adrannol sy'n cyd-fynd â'r Strategaeth Hirdymor (gyda ffocws ar Flaenoriaeth Strategol 4) yn cael ei datblygu. Tynnodd SMN sylw hefyd at yr aliniad â'r strategaeth Ymchwil a Gwerthuso, a thynnodd sylw at enghreifftiau o waith yr Is-adran yn y maes hwn, megis:		
<ul style="list-style-type: none"> • Cyhoeddi'r fframwaith iechyd a gofal sy'n seiliedig ar atal sydd yn darparu dull systematig o ymgorffori atal yn y system iechyd a gofal. • Datblygu Glasbrint ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cynhwysol, oedd yn cynnwys creu fframwaith monitro a gwerthuso a chynllun peilot o fatrics aeddfedrwydd i fyrddau iechyd ei ddefnyddio i fonitro eu cynnydd yn erbyn gofynion y glasbrint. • Sesiynau sbotolau ar gyfer y tîm Gofal Sylfaenol i godi ymwybyddiaeth o ymchwil a gwerthuso ac annog gweithgarwch ymchwil a gwerthuso. Roedd hyn yn cynnwys creu cwestiynau ymchwil i lywio rhaglen waith Ymchwil Gofal Iechyd Cymru. • Prosiectau Gwella Ansawdd Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol - roedd hyn yn cynnwys adolygu dros 800 o bosteri, a oedd yn dangos gwelliant mewn ansawdd ac yn annog gweithgarwch ymyrraeth ac atal mewn practisiau meddygon teulu. 		



- Datblygu modiwl e-ddysgu iechyd ar ofal ôl-enedigol, wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru ac yn cynnwys cyllid ar gyfer swydd ymchwil a gwerthuso Band 7. Byddai'r swydd hon yn anelu at ddylunio a chyflwyno cynllun gwerthuso erbyn mis Mawrth 2026.

Tynnodd SMN sylw at y cydweithio rhwng Iechyd Cyhoeddus Cymru a phartneriaid fel Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC), Llywodraeth Cymru, Coleg Brenhinol y Meddygon Teulu, a sawl prifysgol yng Nghymru. Byddai'r partneriaethau hyn yn sicrhau bod ymchwil Gofal Sylfaenol yn berthnasol ac yn gallu llywio newid cadarn.

Rhoddodd SMN enghreifftiau o effeithiau ymchwil a gwerthuso allweddol o waith Gofal Sylfaenol, megis cyflwyno cynllun peilot cydsyniad digidol ar gyfer y Rhaglen Cynllun Gwên. Canfu'r cynllun peilot fod cysyniad digidol yn ddull effeithlon o annog cyfranogiad, ond y byddai angen cymorth a chydlyn digidol parhaus i gynyddu gallu'r rhaglen.

Rhoddodd RA adolygiad o enghreifftiau o waith arweiniol yr Is-adran Gofal Sylfaenol:

- Gwerthuso a monitro Model Gofal Sylfaenol i Gymru (PCMW) fel dull system gyfan ar gyfer gofal iechyd cynaliadwy a hygyrch. Roedd hyn yn cynnwys 60 o glystyrau ledled Cymru lle byddai gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol lleol yn cynllunio ac yn darparu gofal. Roedd yr Is-adran Gofal Sylfaenol wedi cael y dasg o arwain y gwerthusiad, ac roedd bellach wedi symud i'r cam gweithredu. Roedd y gwerthusiad yn cynnwys:
 - Adolygiadau gan gymheiriaid clwstwr a grwpiau ffocws hunanfyfrio i ddeall y rhwystrau a'r galluogwyr i weithio mewn clwstwr.
 - Datblygu dangosyddion allweddol i roi sicrwydd bod gofal sylfaenol a chymunedol yn effeithiol ac yn gweithio tuag at Gymru iachach.
 - Byddai'r canfyddiadau hyn yn ceisio llywio blaenoriaethau Llywodraeth Cymru, tynnu sylw at feysydd lle'r oedd cynnydd wedi'i wneud a meysydd oedd angen ffocws ychwanegol.
 - Byddai'r elfennau hyn yn cael eu dwyn ynghyd mewn adroddiad gwerthuso Model Gofal Sylfaenol i Gymru erbyn Chwarter 4 2025/26.
- Cefnogaeth i Wasanaeth Atodol o dan Gyfarwyddyd (DSS) gan Lywodraeth Cymru ar gyfer Amlafiachedd Cymhleth a Bregusrwydd rhwng mis Rhagfyr 2024 ac Ebrill 2025. Rhoddwyd y manylion i staff meddygon teulu a gofynnwyd iddynt nodi aelodau o'u poblogaeth â'r bregusrwydd/anghenion mwyaf a'r risg uchaf o ofal heb ei drefnu er mwyn darparu gofal rhagweithiol. Gwnaeth Iechyd Cyhoeddus Cymru werthusiad o brosesau dros gyfnod cyfyngedig o amser a oedd â'r nod o gasglu mewnwelediadau gan gydweithwyr meddygon teulu ar lwyddiannau a'r hyn yr oedd angen ei wella. Rhannwyd canfyddiadau'r gwerthusiad gyda Byrddau Iechyd a Llywodraeth Cymru. Byddant yn cael eu hymgorffori yn adolygiad Ysgrifennydd y Cabinet o gynlluniau'r Gaeaf ar gyfer 2025/26, yn ogystal â'u defnyddio i wella manyleb y Gwasanaeth Atodol o dan Gyfarwyddyd ar gyfer 2025/26.

Tynnodd RA sylw at y camau nesaf, a oedd yn cynnwys datblygu cynllun gweithredu Ymchwil a Gwerthuso a chynllun monitro sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau'r Tîm Gofal



Sylfaenol, a sefydlu 2-3 maes ymchwil blaenoriaeth a fyddai'n cael eu hymgorffori yng nghynllun gwaith 2026/27.

Rhestrodd RA rai o'r heriau a gofynion o ran cefnogaeth gan y pwyllgor, megis awydd i ehangu capasiti o fewn y tîm i ddiwallu ceisiadau cynyddol am gymorth ymchwil a gwerthuso, angen i wella mynediad at ddata gofal sylfaenol a chymunedol ar gyfer monitro a gwerthuso, a chefnogi ymdrechion parhaus i gryfhau partneriaethau academiaidd a sgiliau gwerthuso mewnol/allanol.

Trafododd y Pwyllgor y canlynol:

- Pa mor dda yr ymgysylltwyd â meddygon teulu yn ystod y broses werthuso. Cadarnhaodd RA eu bod wedi cael ymgysylltiad cryf gan gyfranogwyr meddygon teulu gyda chyfradd ymateb o 85%, yn enwedig trwy arweinwyr clystyrau meddygon teulu a gwaith agos gyda Choleg Brenhinol y Meddygon Teulu a chynrychiolwyr Cymdeithas Feddygol Prydain.
- Tynnodd IB sylw at broblemau rheolaidd gyda mynediad at ddata meddygon teulu a nododd gynlluniau i ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i gael yr wybodaeth ddiweddaraf.
- Yr angen i symud at fodel gwerthuso sy'n seiliedig ar ganlyniadau er mwyn sicrhau bod effaith y gwaith hwn wedi'i nodi a'i dangos.
- A oedd y gwaith hwn i'w gysylltu â gwaith y Prif Swyddog Meddygol (CMO). Cadarnhaodd ZW fod gwaith yn cael ei wneud gyda'r Prif Swyddog Meddygol yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol er mwyn dylanwadu ar y rhaglen strategol. Nododd RA fod canfyddiadau hunanfyfyrion clwstwr wedi'u cyflwyno i'r Bwrdd Gofal Sylfaenol Cenedlaethol i'w cynnwys yn adroddiad y Prif Swyddog Meddygol. Tynnodd ZW sylw at y ffaith y byddai'r gwaith i ddatblygu dull iechyd y cyhoedd tuag at ofal sylfaenol yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd Gofal Sylfaenol ym mis Tachwedd 2025.
- A ellid defnyddio canfyddiadau'r gwerthusiad o'r model gofal sylfaenol yn ehangach. Nododd RA fod y canfyddiadau wedi tynnu sylw at heriau o ran adnoddau, a bod gwaith yn mynd rhagddo i ddylanwadu ar gyfeiriad polisi ac i weithio gyda Byrddau Iechyd i nodi meysydd ar gyfer newid o ran adnoddau o fewn y gyllideb.
- Holodd MD a oedd y gwaith hwn yn gysylltiedig â metrigau a gwariant atal Llywodraeth Cymru/Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, gan y gallai fod â chysylltiadau â gwaith eu timau nhw. Cadarnhaodd RA fod gwaith wedi'i wneud i ddatblygu metrigau atal ar gyfer y Prif Swyddog Meddygol, a bod cydweithio ar y gweill â Llywodraeth Cymru ar ddangosyddion cyllid a gwariant sylfaenol gofal sylfaenol. Cytunodd RA i gynnwys MD er mwyn rhannu dysgu.

Diolchodd SG i RA/SMN am eu cyflwyniad, a chanmolodd y Pwyllgor gynnydd y tîm a phwysleisiodd bwysigrwydd system gofal sylfaenol ataliol ar gyfer gofal iechyd cynaliadwy.

Cymerodd y Pwyllgor **sicrwydd** ynghylch cynnydd gweithgarwch ymchwil a gwerthuso'r Is-adran Gofal Sylfaenol.



KRIC 3.2/2025.06.17	Strategaeth Ddigidol a Data
<p>Rhoddodd IB drosolwg o'r cynnydd presennol i gyflawni a gweithredu'r Strategaeth Ddigidol a Data.</p>	
<p>Tynnodd IB sylw at y pwyntiau allweddol o'r adroddiad:</p>	
<ul style="list-style-type: none"> • Ail-blatfformio'r system sgrinio babanod newydd-anedig yn llwyddiannus, a fyddai'n galluogi datblygu mathau newydd o sgrinio. • Roedd sawl rhaglen ar y gweill, megis Diogelu Iechyd Digidol (gyda ffocws ar barodrwydd y system ar gyfer pandemig), cymorth sgrinio cancer yr ysgyfaint, a moderneiddio dadansoddi trwy'r rhaglen cwmwl ar gyfer cofnodi dadansoddi data. • Cafwyd cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu'r System Rheoli Achosion Iechyd Rhywiol • Roedd dau grŵp llywodraethu bellach ar waith: yr Awdurdod Dylunio Digidol a Data, ac Awdurdod Dylunio Deallusrwydd Artiffisial (AI). Nododd IB fod llywodraethu digidol a data yn cael ei gryfhau, tra bod llywodraethu AI yn dal i fod yn faes gwaith sy'n dod i'r amlwg. • Risg Strategol 5 – roedd yr agenda ddigidol a data wedi cyrraedd ei chpasiti er gwaethaf ceisiadau ychwanegol am eitemau, ac felly roedd angen blaenoriaethu gwaith. • Roedd Audit Plus yn cael ei ddefnyddio ar gyfer gwylidwriaeth data gofal sylfaenol, gyda chydweithrediad parhaus ag Iechyd a Gofal Digidol Cymru (IGDC) i sicrhau bod anghenion y sefydliad yn cael eu diwallu. • Roedd gwaith parhaus yn cael ei wneud gyda Llywodraeth Cymru ac IGDC i wella llywodraethu a chyfrifoldeb systemau. Mynegodd IB bryderon ynghylch cyflymder ac effeithiolrwydd y cynnydd, a nododd y potensial i etholiadau sydd ar ddoed effeithio ar flaenoriaethu. 	
<p>Gofynnodd y Pwyllgor am y datblygiad o ran defnyddio deallusrwydd artiffisial o fewn y sefydliad. Nododd IB fod deallusrwydd artiffisial yn cael ei dreialu mewn meysydd fel cyfathrebu, dadansoddeg a sgrinio (megis y rhaglen sgrinio cancer yr ysgyfaint), ond bod yn rhaid canolbwyntio ar weithredu diogel a sicr. Tynnodd IB sylw at bwysigrwydd cael cofrestr dadansoddi data yn y cwmwl i gasglu'r holl ddata mewn un lle, a galluogi defnydd cynaliadwy o ddeallusrwydd artiffisial. Rhybuddiodd IB yn erbyn mabwysiadu AI fel datrysiad heb gwestiynau na thystiolaeth glir o fudd, a chododd yr angen i ystyried effeithiau ehangach AI ar iechyd y cyhoedd megis newid hinsawdd a meddwl beirniadol.</p>	
<p>Diolchodd SG i IB am y diweddariad, a chymerodd y Pwyllgor sicrwydd bod Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cyflawni ei Strategaeth Ddigidol a Data drwy'r Map Llwybr y cytunwyd arno a bod llywodraethu cadarn ar waith ganddo ar gyfer rheoli gwaith digidol a data.</p>	
KRIC 3.3/2025.06.17	Strategaeth Iechyd Ryngwladol
<p>Rhoddodd LG ddiweddariad ar y gwaith a wnaed ar y Strategaeth Iechyd Ryngwladol a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2023 ac a oedd yn ei hail flwyddyn o fonitro a gwerthuso.</p>	
<p>Nododd LG fod y Strategaeth Iechyd Ryngwladol yn strategaeth alluogi ar gyfer y strategaeth sefydliadol hirdymor, gyda'r Ganolfan Ryngwladol Cydlynw Iechyd yn ganolbwynt ond gyda gweithgareddau'n digwydd ar draws pob cyfarwyddiaeth.</p>	



Tynnodd LG sylw at feysydd allweddol o'r adroddiad:

- Gwelwyd twf mewn cyfranogiad yn y Fforwm Iechyd Rhyngwladol a gweithdai dinasyddiaeth fyd-eang, gydag ymgysylltiad cryf gan y byd academiaidd ac ar draws Iechyd Cyhoeddus Cymru.
- Roedd gweithgareddau Iechyd Rhyngwladol wedi'u halinio â strategaethau galluogi eraill i hyrwyddo cydweithio a dysgu cydfuddiannol.
- Roedd cynlluniau ar gyfer y dyfodol yn cynnwys mapio gwaith, partneriaethau ac ymchwil Iechyd Rhyngwladol ar draws y sefydliad yn llawn, a chael Hyrwyddwyr Iechyd Rhyngwladol ym mhob Cyfarwyddiaeth.

Holodd y Pwyllgor a oedd y tîm yn defnyddio mesuriadau canlyniadau a chyflawniadau i amlygu effaith eu gwaith. Cadarnhaodd LG fodolaeth dangosyddion i fesur cynnydd a oedd yn cyd-fynd â chanlyniadau strategaeth hirdymor. Awgrymodd y Pwyllgor y gellid cynhyrchu crynodeb o ganlyniadau a chyflawniadau i dynnu sylw at ehangder y gweithgareddau a darparu negeseuon clir. Nododd LG ac LH fod sleidiau crynodeb wedi'u cynhyrchu a chytunwyd i'w rhannu. Awgrymodd SG y byddai'n ddefnyddiol rhannu'r sleidiau crynodeb.

Tynnodd MD sylw at y ffaith bod capasiti'r Tîm Rhyngwladol wedi'i leihau oherwydd arbenigedd a chyfyngiadau adnoddau, ond bod ffocws parhaus ar werth, dysgu ac effaith polisi. Nododd MD hefyd fod y tîm yn gweithio i ddatblygu mwy o ddangosyddion canlyniad ac effaith ochr yn ochr â dangosyddion allbwn, yn cynnwys astudiaethau achos a straeon trwy gydweithio â rhanddeiliaid.

Tynnodd MD sylw hefyd at y diddordeb newydd mewn gwaith rhyngwladol ar ôl COVID, gyda chynnydd mewn cyllid ymchwil a gwaith ar y cyd â phrifysgolion.

Llongyfarchodd y Pwyllgor y tîm ar gyflawniad Iechyd Cyhoeddus Cymru yn dod yn Ganolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd ar gyfer Tegwch Iechyd Digidol, gan nodi rôl alluogi'r Strategaeth Rhyngwladol.

Diolchodd SG i LG, MD ac LH am y diweddariad.

Ystyriodd y Pwyllgor y gwaith a wnaed a chynlluniau ar gyfer y dyfodol ar gyfer Strategaeth Iechyd Rhyngwladol Iechyd Cyhoeddus Cymru, a chymerodd **sicrwydd** ynghylch y cynnydd hyd yma.

KRIC 3.4/2025.06.17

Y Fframwaith Canlyniadau

Rhoddodd KL drosolwg o'r Adroddiad Monitro Effaith Blyneddol a ddarparwyd i'r Pwyllgor i roi sicrwydd. Roedd yr adroddiad yn casglu adborth defnyddwyr ar ddefnydd ac effaith cynhyrchion Iechyd Cyhoeddus Cymru, a fyddai'n cael ei ddefnyddio i wella gwelededd, hygyrchedd ac effeithiolrwydd.

Nododd KL fod canfyddiadau'r adroddiad yn gyson ag adroddiad 2023/24, a oedd yn atgyfnerthu dibynadwyedd y mewnwelediadau ac yn tynnu sylw at feysydd parhaus i'w gwella.



Tynnodd KL sylw at bwyntiau allweddol o'r adroddiad:

- Dangosodd y canlyniadau fod gan lechyd Cyhoeddus Cymru enw da, ond bod defnyddwyr wedi myfyrio y gellid gwneud gwelliannau o ran gwelededd gwaith y sefydliad, megis gwell ymarferoldeb gwefan a hygyrchedd cynhyrchion.
- Mae rhanddeiliaid yn adrodd eu bod yn defnyddio allbynnau lechyd Cyhoeddus Cymru mewn ceisiadau a thrafodaethau am gyllid, er bod nifer y cyfeiriadau yn cael ei ystyried yn faes sydd angen ei dyfu.
- Fel arfer, roedd rhanddeiliaid a oedd yn ymgysylltu'n weithredol yn nodi profiadau cadarnhaol, tra bod defnyddwyr goddefol yn llai bodlon. Roedd sbectwm o ansawdd ymgysylltiad yn yr adborth, gyda rhywfaint o ymgysylltiad wedi'i ddisgrifio fel tocenistaidd. Pwysleisiwyd yr angen i ganolbwyntio ar gyfranogiad defnyddwyr terfynol wrth ddatblygu cynnyrch.
- Roedd y tîm dylunio sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr yn cefnogi gwelliannau mewn datblygu cynnyrch ac ymgysylltu, ac mae archwiliad sylfaenol o arferion ymgysylltu wedi'i gwblhau.
- Nodwyd bod safonau dylunio a chyhoeddi cynnwys yn cael eu datblygu i sicrhau bod adroddiadau'n gryno, yn ymarferol, yn hygyrch, ac yn cyd-fynd â'r broses o gyflwyno'r wefan newydd.
- Roedd ailddatblygu'r wefan yn ffocws mawr, gyda phrofi cam wrth gam ac integreiddio safleoedd lloeren wedi'u cynllunio, gyda'r nod o'i lansio'n llawn yn gynnar yn 2026.

Trafododd y Pwyllgor y canlynol:

- Tynnodd KL sylw at ymgysylltu a chynnwys defnyddwyr fel y meysydd blaenoriaeth i'w gwella.
- Pwysigrwydd allbynnau cryno, hawdd eu defnyddio a'r angen i fesur cynnydd ac effaith gwaith lechyd Cyhoeddus Cymru drwy arolygon ac adborth yn y dyfodol.
- Y broblem bosibl o ragfarn yn yr adborth, gan nad yw dulliau gwerthuso cyfredol o bosibl yn casglu barn cynulleidfaoedd llai ymgysylltiedig neu anymwybodol. Cydnabu KL y gallai hyn fod yn broblem, ond nad oedd sgoriau a sylwadau adborth cyson yn awgrymu hyn. Nododd IB fod llai na hanner yr ymatebwyr i'r arolwg yn fodlon â'r ymgysylltiad, a oedd yn dangos bod angen gwella. Mynegodd KL awydd i ehangu'r gwaith i gynulleidfaoedd newydd.

Diolchodd SG i KL am y diweddariad, ac ystyriodd y Pwyllgor ganfyddiadau dull Monitro Effaith lechyd Cyhoeddus Cymru.

KRIC 3.5/2025.06.17

Diweddariad ar Flaenoriaeth Strategol 2 - Hyrwyddo lechyd Meddwl a Llesiant Cymdeithasol

Cyflwynodd EV grynodedb o'r gwaith a wnaed ar Flaenoriaeth Strategol 2, a oedd yn tynnu sylw at ymdrechion i gyfleu tystiolaeth i'r cyhoedd a rhanddeiliaid, datblygu'r sylfaen dystiolaeth, a chydweithio â'r tîm Ymchwil, Data a Datblygu (RDD) i werthuso effaith.

Tynnodd EV sylw at integreiddio gwaith ar ofal argyfwng ac iechyd meddwl gan y tîm RDD yn yr asesiad anghenion plant a phobl ifanc*



Trafododd y Pwyllgor y canlynol:

- Trefniadau partneriaeth Rhaglen Hapus, mewnbyn Iechyd Cyhoeddus Cymru i'r rhaglen, ac a oedd ei chyrhaeddiad yn mynd y tu hwnt i bobl ifanc a theuluoedd, ac yn cyrraedd pobl hŷn, er enghraifft. Esboniodd EV fod Rhaglen Hapus wedi'i datblygu a'i gyrru'n wreiddiol gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ond ei fod bellach yn cynnwys partneriaethau cryf, a bod gweithdai wedi'u cynnal yn ddiweddar i annog partneriaid i gymryd rhan fwy gweithredol. Roedd y rhaglen yn symud o ymgyrch i'r cyhoedd i gryfhau cynigion cymunedol ar gyfer llesiant iechyd meddwl. Cydnabu EV bod ffocws ar grwpiau oedran iau, menywod, grwpiau lleiafrifol, a'r rhai mewn iechyd gwael neu ag anableddau, ond cadarnhaodd fod pobl hŷn yn cael eu cynnwys trwy waith gyda Llywodraeth Cymru ar leihau dementia a thrwy bartneriaid yn y sector cymunedol fel Age Cymru a Gofalwyr Cymru. Cytunwyd bod angen ffocws mwy penodol ar bobl hŷn mewn cynlluniau gwaith yn y dyfodol.
- Cyfeiriodd at y pwyslais cynyddol ar y gydberthynas gadarnhaol rhwng y celfyddydau ac iechyd, ac awgrymodd hyn fel maes gwerthfawr i'w archwilio ymhellach.
- Nododd IB y cydweithio parhaus rhwng y timau i ddatblygu gwerthusiad cadarn sy'n seiliedig ar ganlyniadau ar gyfer y rhaglen Hapus.

Canmolodd y Pwyllgor eglurder a defnyddioldeb yr adroddiad i aelodau newydd y pwyllgor.

Diolchodd SG i EV am y diweddariad.

Cymerodd y Pwyllgor **sicrwydd** bod ymchwil, data, tystiolaeth a gweithgarwch gwerthuso yn mynd rhagddo i gefnogi Blaenoriaeth Strategol 2: Hyrwyddo llesiant meddyliol a chymdeithasol

KRIC 3.7/2025.06.17

Cynllun Cyflawni Genomeg

Rhoddodd TC drosolwg o'r Cynllun Cyflawni Genomeg Pathogenau ar gyfer 2026-2029. Mae'r cynllun cyflawni genomeg yn darparu fframwaith Llywodraeth Cymru ar gyfer cyflawni a gweithredu genomeg iechyd y cyhoedd a phathogenau ledled Cymru. Roedd y cynllun cyflawni hefyd yn cyflawni un o amcanion allweddol Cynllun Cyflawni Genomeg Cymru (2022–2025) fel y'i cydlynwyd gan Bartneriaeth Genomeg Cymru (GPW), a oedd yn cynnwys Iechyd Cyhoeddus Cymru (ICC) a rhanddeiliaid allweddol eraill.

Roedd y cynllun cyflawni yn cynnwys 11 amcan a champau gweithredu cysylltiedig.

Tynnodd TC sylw at y twf sylweddol mewn capasiti genomeg er 2017, sydd bellach yn cynnwys dros 35 o staff, gwasanaethau achrededig lluosog, a chapasiti wythnosol o dros 2,000 o samplau.

Nododd TC fod y cynllun wedi'i ddatblygu dros 18 mis gydag ymgysylltu helaeth ag uwch arweinwyr a staff, clinigwyr, arbenigwyr, seinfwrdd cleifion Partneriaeth Genomeg Cymru, ac adborth o weithdai a'r Tîm Gweithredol Busnes (BET). Nodwyd bod y cynllun yn cwmpasu strwythur y rhaglen, datblygu gwasanaethau, cydweithio, a galluogwyr megis asesiadau gwerth a phrosesau comisiynu*. Mae'n cyd-fynd â

chynllun cyflawni ehangach Partneriaeth Genomeg Cymru a chaiff ei gwblhau ar ôl ymgynghoriad allanol, a oedd yn cynnwys cyfieithu a fersiwn gyhoeddus symlach.

Gwnaeth y Pwyllgor y canlynol:

- Canmol y cynllun fel un uchelgeisiol a thrawsnewidiol. Cydnabu rôl lechyd Cyhoeddus Cymru fel arweinydd ym maes genomeg, ond roedd hefyd yn nodi'r angen am gyllid a chefnogaeth ychwanegol ar gyfer ei weithredu'n llwyddiannus. Eglurodd TC y gallai rhai o'r gweithgareddau genomeg awgrymedig fod yn niwtral o ran cost neu arbed arian trwy ddisodli prosesau presennol, ond roedd yn cydnabod y byddai angen buddsoddiad ychwanegol ar gyfer rhai gweithgareddau newydd.
- Pwysleisiodd IB rôl y Pwyllgor wrth gymryd sicrwydd ynghylch yr amserlen a'r cynnydd, a bod y penderfyniad i fwrw ymlaen ag ymgynghori yn fater i'r tîm genomeg benderfynu arno. Cytunodd y Pwyllgor i gael yr wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd a chael gwybod am unrhyw newidiadau neu faterion sylweddol yn ystod y broses ymgynghori a mabwysiadu.
- Cododd bwysigrwydd cyfathrebu clir ac ymgysylltu â'r cyhoedd, yn enwedig i wneuthurwyr penderfyniadau a'r rhai sy'n anghyfarwydd â genomeg. Disgrifiodd TC a TF yr ymdrechion a wnaed i ymgysylltu â staff, rhanddeiliaid a'r cyhoedd, a oedd yn cynnwys byrddau cleifion, digwyddiadau mewn ysgolion a chynlluniau datblygu'r gweithlu gydag AaGIC* i wella llythrennedd genomeg a dealltwriaeth o'r maes ar draws lechyd Cyhoeddus Cymru a'r GIG.
- Canmolwyd TC am ei waith ymgysylltu helaeth yn ystod y gwaith o ddatblygu'r cynllun, a chyfeiriwyd at yr amser a'r ymdrech a fuddsoddwyd.

Diolchodd SG i TC am y cyflwyniad.

Cymerodd y Pwyllgor **sicrwydd** o'r cynllun, a chytuno i'w fabwysiadu fel cynllun dros dro a galluogi ei gyhoeddi ar ffurf drafft am sylwadau a'i gwblhau drwy broses lywodraethu Partneriaeth Genomeg Cymru. **Cytunodd** y pwyllgor hefyd, os bydd newidiadau pellach o ganlyniad i'r cam ymgynghori terfynol yn fach iawn, y byddai'r Pwyllgor yn fodlon i'r Cynllun Cyflawni Pathogenau symud ymlaen i'w fabwysiadu'n llawn, a chael diweddariad er gwybodaeth.

KRIC 3.8/2025.06.17

Rheoli Risg

KRIC 3.8.1/2025.06.17

Cofrestr Risg Strategol

Rhoddodd SS/DG drosolwg o Risgiau Strategol 1, 4 a 5 sy'n dod o dan gylch gorchwyl y Pwyllgor.

Tynnodd DG sylw at y ffaith bod y tri risg yn cael eu rheoli o fewn y lefelau goddefiant risg y cytunwyd arnynt, ac y byddai'r Tîm Gweithredol Busnes yn ystyried gwneud archwiliad dwfn o Risg 1 a 2 yn y cyfarfod ar 16 Hydref.

Tynnodd DG sylw at y diweddariadau i'r Risgiau Strategol o dan gylch gwaith y Pwyllgor:

- Risg Strategol Un (methu â chyflawni ein rôl o ddylanwadu ar newid system i atal, lleihau anghydraddoldebau iechyd a mynd i'r afael â phenderfynyddion iechyd) – nododd y crynodeb ar gyfer y risg hon y gwaith parhaus yn y maes hwn, a'r



anawsterau o ran gwella disgwyliad oes iach trwy'r gwaith hwn yn unig. Nododd DG fod y sefydliad yn agored i ystyried opsiynau posibl ar gyfer rheoli'r risg hon, gan gydnabod y gallai fod lefel uchel o amlygiad i risg.

- Risg Strategol Pedwar (methu â lliniaru effeithiau newid hinsawdd ar iechyd y cyhoedd yng Nghymru yn effeithiol) – nododd DG fod y risg hon wedi'i thrafod yng nghyfarfod diwethaf y Tîm Gweithredol Busnes, a'i bod yn cael ei rheoli drwy'r Bwrdd Rhaglen Newid Hinsawdd. Tynnodd DG sylw at y ffaith y byddai'r risg hon yn parhau i gael ei hystyried ochr yn ochr â'r risg gorfforaethol carbon sero net y disgwylir iddi gael ei huwchgyfeirio i'r Gofrestr Risg Gorfforaethol. Nododd MD gynnydd diweddar yn yr ôl troed carbon a adroddwyd ar gyfer Iechyd Cyhoeddus Cymru, ond credwyd bod hyn yn ganlyniad i gasglu data yn well yn hytrach na chynnydd mewn allyriadau. Nodwyd y byddai'r ddau risg hinsawdd yn cael eu hadolygu yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd Rhaglen Newid Hinsawdd ym mis Tachwedd i drafod opsiynau lliniaru.
- Risg Strategol Pump (manteisio'n llawn ar ddigidol a data i wella iechyd y cyhoedd yng Nghymru) – Adroddodd IB fod y risg yn parhau o fewn terfynau derbynol ond nododd bod pwysau cynyddol ar allu a chapasiti o ganlyniad i agenda brysur a'r angen i flaenoriaethu ymhellach. Tynnodd sylw at y cysylltiad â Risg Strategol 2 a nododd bwysigrwydd rheoli newid sefydliadol. Nodwyd y byddai'r risg yn cael ei thrafod yng nghyfarfod y Tîm Gweithredol Busnes ar 16 Hydref.

Canmolodd y Pwyllgor gynllun clir a hygyrch yr adroddiadau risg.

Diolchodd SG i DG am y diweddariad, a gwnaeth y Pwyllgor:

- Gymryd **sicrwydd** ynghylch rheoli Risg Strategol o fewn y Sefydliad.

KRIC 3.7/2025.06.17

Y Gofrestr Risg Gorfforaethol

Cadarnhaodd IB fod yr holl risgiau corfforaethol sy'n berthnasol i ddigidol, data, ymchwil a gwerthuso eisoes wedi'u trafod yn gynharach yn y cyfarfod fel rhan o Weithredu'r Strategaeth Data a Digidol.

Cymerodd y Pwyllgor **sicrwydd** bod risgiau corfforaethol yn cael eu craffu'n briodol.

KRIC 4/2025.06.17

Eitemau i'w Cymeradwyo

KRIC 4.1/2025.06.17

Cofnodion, Cofnod Gweithredu a Materion yn Codi o'r cyfarfod (28 Mawrth 2025)

Cymeradwydd y Pwyllgor gofnodion cyfarfod 17 Mehefin fel cofnod cywir. Rhoddwyd diweddariadau ar gamau gweithredu oedd yn weddill:

- Cam Gweithredu 2025/06 (amserlen ar gyfer system TG newydd) – Nodwyd y byddai diweddariad yn cael ei gyflwyno i gyfarfod y Pwyllgor Gwybodaeth, Ymchwil a Hysbysrwydd ym mis Rhagfyr i ganiatáu mwy o eglurder ar amserlenni.
- Camau Gweithredu 2024/6 (datblygu ap y GIG) – Gwnaed cais i newid y dyddiad i 9 Rhagfyr er mwyn caniatáu cyfarfod ar y cyd ag Iechyd a Gofal Digidol Cymru.



- Camau gweithredu i'w cau:
 - 2025/02
 - 2025/05
 - 2024/15
 - 2025/07

Cymeradwydd y Pwyllgor y newidiadau i'r cofnod gweithredu.

KRIC 5/2025.06.17

Eitemau i'w Nodi

KRIC 5.3/2025.06.17

Cynllun Gwaith y Pwyllgor

Nododd y Pwyllgor y cynllun gwaith.

KRIC 7/2025.06.17

Camau dod â'r cyfarfod i ben

Unrhyw fater arall: Dim.

Gwahoddwyd aelodau'r Pwyllgor i roi eu hadborth ar y cyfarfod drwy e-bost i LB, yn cynnwys unrhyw feysydd a weithiodd yn dda, ac unrhyw feysydd i'w gwella;

Dyddiad y Cyfarfod Nesaf: **09 Rhagfyr 2025.**

Daeth y cyfarfod i ben am 16:21